# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 3**

RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

*Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol*

**57 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i gywiro darpariaeth ormodol neu annigonol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu fod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir—

(a) yn ardal awdurdod lleol, neu

(b) mewn rhan o'r ardal honno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, a

(b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan yr awdurdod i arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.

(3) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (2)—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion, wrth iddynt roi effaith i'r cyfarwyddyd, gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir ynddo, ac

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol, pennu'r nifer ychwanegol o ddisgyblion y mae lle i'w drefnu ar eu cyfer.

(4) Ni chaniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion ymwneud ag ysgol a enwir.

**58 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 57(2)**

(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2) gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2).

(4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2) a rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.